

# Atodiadau

## i Adroddiad y Grŵp Symud Ymlaen

Mae'r atodiadau hyn yn rhoi peth o'r wybodaeth gefndirol y mae'r Grŵp Symud ymlaen wedi ei defnyddio wrth baratoi eu hadroddiad a llunio eu cynnig. Mae'r wybodaeth weithiau'n fanwl iawn a dro arall yn fwy cyffredinol.

1. Bywiog ond Bregus, cyflwr Crynwriaeth yng Nghymru a'r Gororau
2. Cylch gorchwyl y grŵp
3. Proses y grŵp
4. Ymgynghori gyda Chyfeillion yng Nghymru a'r Gororau
5. Pam mae'n rhaid i ni fod yn elusen gofrestredig – ymateb gan Paul Parker, Clerc Cofnodi Cyfarfod Blynyddol Prydain
6. Beth yw Cyfarfod Crynwyr Cymru?
7. Quaker Faith and Practice 4.02 the functions of Area Meetings
8. Adroddiad 2006 'Quaker Structures in Wales and the Borders'
9. Almeley Wootton LM minute
10. Yr hyn y mae pob Cyfarfod Rhanbarth yn gallu ei gyfrannu at elusen ar y cyd
  - 10.a) Pobl a chyfarfodydd
  - 10.b) Rhestr eiddo ym mherchnogaeth y pedwar Cyfarfod Rhanbarth
  - 10.c) Cyllid yn ymwneud ag eiddo
11. Model posib ar gyfer cofnodi ac adrodd ariannol
12. Llwybr posib at un elusen
13. Rhestr polisïau a gweithdrefnau yr ydym wedi gweithio arnynt
14. Cyswllt i ddeunyddiau eraill y cyfeirir atynt yn ein hadroddiad

# Bywiog ond Bregus, cyflwr Crynwriaeth yng Nghymru a'r Gororau

## Bywiog ond Bregus: Y breuder sy'n creu'r brys

Mae niferoedd Crynwyr yn *disgyn*. Nid yn unig y mae llai o bobl yn ymuno'n ffurfiol fel aelodau, ond mae cyfanswm yr aelodau a'r mynychwyr yn gostwng yn gyson.

Mae *llai o bobl a fagwyd ar aelwyd Crynwyr*, felly maent yn llai cyfarwydd ag arferion Crynwyr, ac er y gall hyn fod yn ffynhonnell newydd-deb ac arbrofi sy'n cyfoethogi mae peryg hefyd y bydd yn glastwreiddio'r hyn sy'n gwneud Crynwyr yn wahanol.

Os chi yw'r *unig Grynwr yn y Teulu (SQIF – Single Quaker in the Family)*, rhaid i chi gyfaddawdu rhwng eich anghenion chi fel Crynwr ac anghenion pobl eraill yn eich cartref nad ydynt yn Grynwr, felly efallai na fyddwch yn fodlon gwasanaethu mewn rhai ffyrdd.

Mae Crynwyr yn heneiddio: rydym dipyn yn hŷn nag yr oeddem genhedlaeth yn ôl, pan fyddai pobl yn dod yn aelodau yn eu 30au a'u 40au. Yn awr mae hynny'n digwydd yn ein 60au. Mae hynny'n golygu, erbyn i ni ddysgu beth yw beth, bod gennym lai o flynyddoedd o'n blaen, ac efallai byddwn yn ei chael yn fwy anodd ysgwyddo cyfrifoldebau newydd.

Rydym hefyd o dan faich y *strwythurau llywodraethu gor-gymhleth* a sefydlwyd pan gafodd eglwysi eu gorfodi i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau a chyflwyno adroddiadau a chyfrifon, heb allu manteisio bellach ar gael ein heithrio rhag hyn fel elusennau crefyddol.

Canlyniad hyn oedd creu nifer fawr o elusennau bach gyda'r bwriad o gadw prosesau penderfynu a goruchwyllo'n agos i'r Cyfarfod Rhanbarth, ond wrth i ddyletswyddau ymddiriedolwyr ddod yn fwy eglur ac wrth i'r safonau adrodd gofynnol godi dros y blynyddoedd, mae wedi dod yn fwy anodd dod o hyd i ddigon o ymddiriedolwyr.

Yn y rhanbarth o dan Gyfarfod Crynwyr Cymru, canfuwyd y broblem hon yn gynnar a phenodwyd grŵp i edrych ar atebion posib. Yn 2006, argymhellodd y grŵp hwnnw y dylid cyfuno'r holl Gyfarfodydd Rhanbarth yn un Cyfarfod Rhanbarth Cymru Gyfan, gyda'r swyddogaethau meithrin yn ysbrydol ac ymestyn allan yn aros yn lleol, yn yr hyn a fyddai'n cael ei alw'n Glystyrau. Ond roedd rhai Cyfeillion na allent gydsynio â'r newid hwn felly yn dawel rhoddwyd y cynnig heibio.

Yn awr, yn 2020, mae'r *sefyllfa wedi dirywio* nes bod nifer o Gyfarfodydd Rhanbarth yn cael trafferth i benodi a chadw ymddiriedolwyr. Hefyd, nid yw *Cyfarfod Rhanbarth Canolbarth Cymru* wedi gorfod *cofrestru* oherwydd bod ei drosiant mor isel, ond bydd yn rhaid iddo wneud hynny erbyn *Mawrth 2021 oni bai fod proses amgen* sy'n dderbyniol i'r Elusen yn cael ei rhoi ar waith.

Felly, er bod hyn yn teimlo'n ddieithr iawn i ysbryd y Crynwyr, rhaid i'r Crynwyr yng Nghymru a'r Gororau *wneud yn iawn am yr amser a gollwyd a dod i benderfyniad ar ein strwythur i'r dyfodol yn fuan iawn*.

## **Bywiogrwydd: Sut mae'r ysbryd yn ffynnu yng Nghymru a De'r Gororau**

Mae Quaker Faith & Practice (13.02) yn dweud wrthym y gall galwad fewnol arbennig i wasanaethau mewn ffordd benodol ddod i unrhyw un. Dyma flas ar sut yr ydym ni fel Crynwyr ar draws Cymru a De'r Gororau wedi bod yn mynegi ein ffydd ac yn tystio i'n gwerthoedd fel Crynwyr dros y blynyddoedd diweddar, naill ai fel unigolion neu ar y cyd â Chrynwyr eraill neu gyda mudiadau eraill.

- Dramor - gwasanaethu fel Cydymaith Ecwmenaidd ym Mhalestina ac Israel; ymweld â Chyngor Materion Ewrop y Crynwyr ym Mrwsel; cysylltu â Chrynwyr yng Nghymru ac yn America; adeiladu ysgolion ym Monze.
- Yn genedlaethol ac yn lleol - "Arfogi ar gyfer Gweinidogaethu" trwy ddilyn cyrsiau yng nghanolfan Astudio Woodbrooke yn Birmingham ac edrych ar arweiniad ysbrydol; cynnal project Ysgolion Heddychlon yng Nghanolbarth Cymru; creu canolfan heddwch a gardd heddwch yn y Fenni; cynnal gweithdai a digwyddiadau (ar faterion yn cynnwys cyfiawnder economaidd yng Ngogledd Cymru, newid hinsawdd yn Llandrindod). Hefyd yn cynhyrchu CD (Voices of Conscience) ac arddangosfa ar filitariaeth a heddwch; Pity of War - project i goffau dinasyddion diniwed a laddwyd mewn rhyfel; Caplaniaeth mewn Carchardai (gan gynnwys Berwyn, Wysg); cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid - mae nifer o gyfarfodydd yn "Gyfarfodydd Noddfa". Gweithio gydag Ymgyrch y Crynwyr yn erbyn arteithio, Quaker Housing Trust, Quaker Concern for Animals; presenoldeb Crynwyr yng Ngŵyl y Gelli, a rhan o bresenoldeb rhynggenwadol Cytûn yn yr Eisteddfod a Sioe Frenhinol Cymru.
- Yn ein bywydau ein hunain: dewisiadau ffordd o fyw personol megis dulliau teithio, adeiladu neu atgyweirio cynaliadwy, peidio â bod yn berchen tŷ, bwyta llai o gig; ysgrifennu llyfrau (e.e. A travelling Quaker Writes gan Dewi Heald) a barddoniaeth (ee A part of the Main gan Philip Gross a Lesley Saunders); gwneud pabais gwyn i'r Peace Pledge Union a phroject "Collateral Damage" y Quaker Arts Network

## Atodiad 2

# Cylch gorchwyl y grŵp

Sefydlwyd y Grŵp Symud Ymlaen gan bedwar Cyfarfod Rhanbarth cyfansoddol Cyfarfod Crynwyr Cymru (MFW)<sup>1</sup> (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De Cymru a De'r Gororau) ym mis Hydref 2019 i edrych ar ffyrdd o symleiddio strwythurau'r Crynwyr. Penodwyd dau gynrychiolydd o bob Cyfarfod Rhanbarth ac o Gyfarfod Crynwyr Cymru a chynhwyswyd Ymddiriedolwr o bob corff.

Aelodaeth y grŵp Symud Ymlaen:-

<u>Enw</u>	<u>Cyfarfod Lleol</u>	<u>Cyfarfod Rhanbarth</u>
Jeff Beatty	Almeley Wootton	De'r Gororau
Alan Clark	Aberystwyth	Canolbarth Cymru
Gerry Craddock	Wreccsam	Gogledd Cymru
Peter Davies	Pen-y-bont ar Ogwr	De Cymru
Brian Jackson (rhyddhawyd)	Tŷ Ddewi ac Abergwaun	De Cymru
Diana Morrison-Smith	Machynlleth	Canolbarth Cymru
Huw Meredydd Owen	Pwllheli	Gogledd Cymru
Peter Rivers	Clun Valley	De'r Gororau
Christine Trevett	Pen-y-bont ar Ogwr	De Cymru
Frances Voelcker	Porthmadog	Gogledd Cymru
Lesley Richards (clerc)	Church Stretton	W&S
Helen Oldridge (LDW, yn cefnogi)	QL	Cyfarfod Blynyddol Prydain
Jonathan Carmichael (yn cefnogi)	QL	Cyfarfod Blynyddol Prydain

Y cylch gorchwyl:-

1. cyflwyno safbwyntiau Cyfarfodydd Rhanbarth cysylltiedig a'u cyrff ymddiriedolwyr ac ymgynghori'n eang â nhw erbyn Medi 2020
2. ymchwilio i waith a wnaed yn y degawd diwethaf (Grŵp Llywio 2006-8) i weld a oes pwyntiau i'w datblygu
3. rhoi'r holl ddewisiadau ar y bwrdd o ran cydweithio'n fwy effeithiol o fewn Cymru trwy ffurfio corff ymddiriedolwyr cyffredinol, ac fel arall, a chanfod pa ddewisiadau y gallai Cyfarfodydd Rhanbarth eu symud ymlaen
4. cysylltu â grwpiau eraill sy'n gweithio tuag at symleiddio e.e. Swydd Efrog, Llundain a gyda Phwyllgor Stiwardiaeth y Crynwyr BYM a Swyddog Project Simpler Meetings
5. gweld pa waith pellach fydd ei angen, a chan bwy, yn ôl yr angen
6. Llunio adroddiad i Gyfarfod Crynwyr Cymru ym mis Hydref 2020 ar y camau nesaf

---

<sup>1</sup> Gweler Atodiad 6 – i gael gwybodaeth am Gyfarfod Crynwyr Cymru

## Atodiad 3

# Proses y grŵp

### Methodoleg

Rhwystrowyd cyfarfod cyntaf y Grŵp gan lifogydd ond fe'i cynhaliwyd cyn y Cloi felly cyfarfu wyneb yn wyneb ar 3 Mawrth 2020. Cytunwyd yn y cyfarfod hwnnw i ffurfio tri is-grŵp i weithio ar feysydd syniadau penodol:

### Grŵp A – eiddo ac ymddiriedolwyr

- Ymddiriedolwyr cysylltiedig ar draws Cyfarfodydd Rhanbarth
- Efallai nad yw'r ffiniau'n arwyddocaol, (nid yw'r grwpiau ar y datganiad ar y tabl yn gwneud fawr o synnwyr).
- Rheoli eiddo, mae gan wahanol rannau o'r wlad brofiad hir o weithio'n wahanol, (h.y. Six Weeks Meeting sydd wedi cael ei ail-enwi erbyn hyn yn London Friends Property Trust), neu maent yn ystyried y posibilïadau (e.e. Swydd Efrog.)
- Tai cwrdd neu ddim tai cwrdd Ai'r peth gorau fyddai eu gwerthu ac aildefnyddio'r adnoddau, efallai i sefydlu ac adeiladu cyfarfodydd yn y mannau lle mae eu hangen?

### Grŵp B – stori newydd

- Stori newydd i'w hadrodd i ni ein hunain ac yna i'w hadrodd i eraill, trosiad o goeden
- Gwneud defnydd gwell o amser Cyfeillion, nid dim ond gwneud llawer o bethau.
- Beth ydym ni eisiau bod? Beth sydd ei angen arnom?
- Dychmygu cael hwyl, chwarae'n dduwiol
- Yr angen i ofalu am ein gilydd

### Grŵp C – Edrych tuag allan

- Swyddogaeth unigryw Cyfarfod Crynwyr Cymru, llais Crynwyr i Senedd Cymru, BYM etc. Mae'n gyfrwng i ni lefaru'r gwirionedd wrth rym.
- Ni ddylem fod yn gaeth i'n hanes diweddar (dweud ein bod ni bob amser wedi gweithredu felly pan nad yw hynny'n wir).
- Materion iaith
- Amrywiaeth, peidio ag ofni trafod materion dosbarth
- Ydy ein strwythurau'n deillio o gyfansoddiad deallusol Cymdeithas y Cyfeillion
- Niferoedd bach

Cynhaliwyd y cyfarfodydd dilynol ar Zoom ac adroddodd y grwpiau hyn yn ôl i'r grŵp cyfan ar 29 Ebrill.

Daeth **Grŵp A Eiddo ac Ymddiriedolwyr** i'r casgliad bod y strwythur pum elusen, pedwar Cyfarfod Rhanbarth a Chyfarfod Crynwyr Cymru, yn dreth ar adnoddau. Awgrymwyd ein bod yn symud tuag at un elusen fyddai'n ein galluogi i rannu arbenigedd ac yn galluogi gwahanol ffyrdd o reoli eiddo a chyllid<sup>2,3</sup> a Pholisïau a Gweithdrefnau ar y cyd<sup>4</sup>. Rydym mewn sefyllfa wahanol i'r adeg pan wnaed cynigion i newid strwythurau'r Crynwyr yng Nghymru yn 2006, ond credwn fod llawer i'w ganmol yn yr adroddiad hwnnw<sup>5</sup>. Yn yr un ffordd ag y mae amgylchiadau wedi golygu ein bod yn gorfod defnyddio TG mewn ffyrdd na fyddem wedi eu hystyried, efallai fod amgylchiadau yn awr yn ein gorfodi i newid ein strwythurau.

Yng **Ngrŵp B Adrodd stori newydd** ystyriwyd y trosiad o goeden, trosiad y gellir ei ddefnyddio mewn amryw o ffyrdd, ond sy'n mynd at graidd pwrpas gwaith y grŵp. Mae pwrpas i bob rhan o'r goeden sy'n caniatáu i'r gweddill wneud mwy, er, ar hyn o bryd, mae'r rhannau gwahanol hyn braidd yn ddigyswllt.

Cawsom ein hatgoffa gan **Grŵp C Edrych tuag Allan** mai'r Cyfarfodydd Lleol yw ein sylfaen gadarn a bod angen eu helpu i ffynnu ond bod hyn yn gofyn am ganolbwyntio ar Gyfarfodydd Lleol ac ar grwpiau ehangach o Grynwyr fel ei gilydd. Yr allwedd i'n gallu i feithrin ein cyfarfodydd lleol yw croeso ysbrydol. Rydym yn edrych tuag allan o'n Cyfarfodydd Lleol i Grynwyr yng Nghymru, o Grynwyr yng Nghymru i Grynwyr yn ehangach ac o Grynwyr i'r byd yn ehangach.

Siaradodd Jonathan Carmichael, Rheolwr Project BYM Simpler Meetings, am brofiadau o weddill Cyfarfod Blynyddol Prydain, yn enwedig o Lundain lle mae'r Cyfeillion yn ystyried ffurfio un elusen ar gyfer y saith Cyfarfod Rhanbarth a'r London Quaker Property Trust. Dylem sylweddoli bod nifer fawr o wahanol ffyrdd o edrych ar y sefyllfa, a nifer fawr o wahanol agweddau arni. Os nad yw pawb yn weld yr un broblem, ni fyddwn yn cytuno ar yr ateb. Mae pobl yn ymateb i newid mewn ystod o ffyrdd gwahanol, brwdfrydig, anfodlon neu'n ddifater, a bydd rhai yn gallu mynegi eu teimladau'n well nag eraill. Mae'n well edrych ar y darlun mawr yn gyntaf a datrys y problemau llai wedyn. Mae gwaith ymddiriedolwr yn cynnwys gofalu am asedau, am arian ac felly mae ymddiriedaeth yn ystyriaeth bwysig. Os ydym am weld newid, rhaid i ni ddelio â phryderon ynghylch grym, rheolaeth a dylanwad. Yr hyn sy'n sylfaenol i hyn oll yw cyfathrebu.

Gwelsom dair agwedd ar ein hymateb i'r adroddiadau hyn a sefydlwyd dau grŵp newydd i'w datblygu:

**Cyfathrebu** Ein canfyddiad ni o ganlyniad adroddiad 2006 yw, er bod yr ymateb iddo'n frwdfrydig, bod y Cyfeillion fel petaent wedi teimlo ei fod yn ateb o'r brig i'r bôn a bod cyfathrebu'n hollbwysig. Rhoddwyd y dasg i'r grŵp hwn o ddatblygu ffordd o gyfathrebu gyda Chyfeillion a fyddai'n eu tywys trwy ein ffordd o feddwl. Gofynnwyd iddynt ddatblygu trosiad y goeden mewn ffordd a fyddai'n galluogi trafodaethau rhwng aelodau a mynychwyr ar draws pedwar Cyfarfod Rhanbarth cyfansoddol Cyfarfod Crynwyr Cymru er mwyn helpu Cyfeillion i ganfod mynegiant cyffredin o'r heriau sy'n ein hwynebu. Cafodd y deunydd hwn ei gylchredeg yn eang ac rydym yn ddiolchgar am yr holl ymatebion a

<sup>2</sup> gw. Atodiad 10a - Beth all pob Cyfarfod Rhanbarth ddod i'r elusen ar y cyd

<sup>3</sup> gw. Atodiad 10b - Adroddiad ar yr eiddo ym mherchnogaeth y pedwar Cyfarfod Rhanbarth

<sup>4</sup> gw. Atodiad 12 - Polisiâu Cyffredin drafft

<sup>5</sup> gw. Atodiad 9 - Adroddiad 2006 Struthurarur Crynwyr yng Nghymru a'r Gororau

gawsom gan unigolion, Cyfarfodydd Lleol a Chyfarfodydd Rhanbarth sydd wedi bod yn sail i'r adroddiad hwn.

**Stiwardiaeth** i wneud rhagor o ymchwil ar;

- Sut y gellid sefydlu Elusen Crynwyr Cymru gyfan
- Sut mae Tai Cwrdd Crynwyr o fewn y pedwar Cyfarfod Rhanbarth yn cael eu defnyddio a'u cyflwr
- Sut y gellid rheoli cyllid, efallai trwy edrych ar y London Quaker Properties Trust a'r Central England Area Meeting.

Canlyniad yr ymchwil hon sy'n ffurfio sail ein hadroddiad.

Yn ogystal â'r gwahanol grwpiau bach mae'r Grŵp Symud Ymlaen wedi cyfarfod bedair gwaith i lunio'r adroddiad hwn.

## Atodiad 4

# Ymgynghori gyda Chyfeillion yng Nghymru a'r Gororau

Anfonwyd dogfen ymgynghori allan gan y Grŵp Symud Ymlaen o'r enw 'Release the hidden life of Quakers in Wales and the Marches'. Fe'i cylchredwyd ddiwedd Mai a gwahoddwyd ymatebion erbyn canol Gorffennaf. Gofynnodd yr ymgynghoriad i Gyfeillion wneud y canlynol:-

Dychmygu ein Cymdeithas Grefyddol fel coeden, organeb fyw; mae'n cynnwys addoli, dysgu ysbrydol, ymestyn allan i'r gymuned, cefnogi ein gilydd a phlant. Mae Cyfarfod Blynyddol gyda Chyfarfodydd Lleol, Cyfarfodydd Rhanbarth a Chyfarfod Crynwyr Cymru a strwythur anhylaw. Mae cyfarfodydd busnes, eiddo i'w reoli a chyfrifon banc. Rydym yn gweithio ar broiectau ac ymgyrchoedd sydd yn cael eu cynnal fel rhan o'n Cymdeithas a chan Gyfeillion yn gweithio gydag eraill.

- *Sut yr ydych yn ymateb i'r ddelwedd o goeden? Pa rai o'n gweithgareddau yw'r gwreiddyn, y boncyff, y canghennau a'r dail?*
- *Pa rannau o'r goeden y gwyddoch amdanynt? Ym mha rai yr ydych yn cymryd rhan?*
- *Pa rannau sydd mewn iechyd da? Pa rannau sydd angen eu tocio?*

Er ein bod yn Gymdeithas Grefyddol a gydnabyddir fel eglwys, rydym hefyd yn elusen gyda'r cyfrifoldebau cyfreithiol sydd ynghlwm wrth hynny.

- *Pa mor dda y mae agweddau eglwys ac elusen ein Cymdeithas yn gweithio? Oes unrhyw broblemau?*

Cawsom fwy na 60 o ymatebion gan Gyfeillion unigol, Cyfarfodydd Lleol a Chyfarfodydd Rhanbarth.

Clywsom gan bobl sydd â phrofiad helaeth o'r Cyfeillion a chan fynychwyr hollol newydd, gan Gyfeillion â phrofiad o weithio i elusennau eraill ar lefel uchel a chan Gyfeillion sy'n gwybod dim byd am natur strwythurau ffurfiol. Maen nhw i gyd wedi bod yn ddefnyddiol Dyma gompenniwm o syniadau a gymerwyd o'r rhai a ddaeth i law.

Fe awgrymwyd y gallai'r Cyfeillion feddwl am ffydd y Crynwyr fel coeden. I rai Cyfeillion nid oedd hyn yn gymorth, ond roedd y trosiad yn caniatáu i eraill ddweud pob math o bethau am Grynwriaeth.

### **Dyma gompenniwm o syniadau a gymerwyd o'r rhai a ddaeth i law.**

- Rhaid rheoli coed
- Rhaid i chi docio coed fel nad yw'r canghennau'n rhy drwm os ydynt yn gorfod goroesi sychder.
- Mae rhannau byw coeden yn ystwyth, rhaid i chi docio'r pren marw i ryddhau tyfiant.
- Nid yw coeden yn gryf am ei bod yn anystwyth ond am ei bod yn ystwyth.
- Mae coeden yn plygu gyda'r gwynt i osgoi cael ei thorri.



- Yr hyn sydd ei hangen arnom yw newid agwedd lwyr fel ein bod yn goniffer ac nid yn dderwen.
- Gallai patrwm BYM o edrych ar ôl coeden weithio mewn parc, ond nid o dan amodau llai diogel.
- Mae coeden yn sownd yn y ddaear fel Woodbrooke neu Friends House. Mae Crynwyr fel haid o adar a chyfarfod Crynwyr yn nyth iddynt.
- Mae gan y goeden Banyan wreiddiau sy'n hongian lawr o'r awyr ac yn gwreiddio lle bynnag maent yn cyffwrdd ag ef.
- Nid yw Crynwyr yn solet neu'n sefydlog neu'n weladwy fel coeden ond yn hytrach maent yn ddi-ffurf, yn newid, yn ymestyn yn denau, yn anodd eu diffinio ond yn effeithiol wrth greu newid.
- Gellwch adeiladu pob math o dai pen coeden sydd yn hwyl.
- Gall coed ddarparu cynefin cyfoethog i organebau eraill.
- Mae Crynwriaeth yn rhan o goedwig gyda mynychwyr yn gweithio fel gwenyn yn peillio'r blodau.
- Mae coed wedi eu cysylltu gan fycorhisa tanddaearol.

### **Crynodeb o'r adborth**

Roedd rhai eisiau bod yn rhan o goeden fythwyrdd fel na fyddai'r dail yn disgyn, roedd eraill am fod yn goed collddail fel y gellid adnewyddu'r dail, ac roedd rhai eisiau bod yn goeden fythwyrdd yr oedd ei dail yn disgyn wrth iddynt heneiddio fel nad oedd byth yn foel a bod dail newydd o hyd.

Roedd yna Gyfeillion oedd yn rhybuddio yn erbyn newid. Mae'n anodd dod o hyd i Gyfeillion i wneud y swyddi nawr, os ydych yn gwneud rhai o'r swyddi'n fwy, fyddwch chi byth yn dod o hyd i neb; fydd un cyn ymddiriedolwr AM yn anfodlon ymgymryd â swydd fwy. Roedd yna bryder mai'r unig Gyfeillion a fyddai'n ymgymryd â'r swyddogaethau ehangach fyddai Cyfeillion 'o bwys'. Rydym yn gweithio fel amaturiaid mewn byd cynyddol gymhleth a hyd yma rydym wedi llwyddo o drwch blewyn. Bod mwy o reoli'n rhwystr i weithrediadau'r ysbryd. Roedd yn destun pryder bod un o'r atebion oedd yn fwyaf beirniadol o unrhyw newid wedi ei anfon yn ddiennw. Mae hyn yn awgrymu bod pryder ynghylch sut byddai safbwyntiau gwahanol yn cael eu derbyn.

Roedd yna Gyfeillion oedd yn feirniadol o'r sefyllfa bresennol. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf cafwyd mwyfwy o drafod ar broses a strwythur a dim digon o bwyslais ar gyfathrebu'r 'ffordd'. Mae yna dyndra rhwng gofynion seciwlar a threfn yr Efengyl a rhaid i ni ddod at ein gilydd gydag ymddiriedaeth a thynwch i ganfod ffordd ymlaen. (QF&P 15.03) Pe bai Crynwyr yn eu gweld eu hunain yn fwy fel rhan o gymuned fwy efallai byddent yn fwy tebygol o ymgymryd â swyddogaethau fel gweithred o wasanaeth. Os bydd newid rhy gyflym yn y Cyfeillion sy'n ymgymryd â swyddogaethau caiff gwybodaeth ei cholli. Ar y llaw arall mae amgylchiadau bywyd rhai Cyfeillion yn gyfryw fel y gallent o bosib gynnig gwasanaeth tymor byr ond nid y cyfnod tair neu chwe blynedd mae ein system gyfredol yn ei ddisgwyl.

Mae yna rai nad ydynt yn deall ein system weinyddol, mae'n ymddangos yn llafurus. Holodd nifer o bobl pam roedd yn rhaid i ni fod yn elusen ffurfiol. Mae Cyfarfodydd Rhanbarth yn rhy hir, does neb yn dod. Ond clywsom hefyd nad oes gan Gyfeillion fawr o amynedd i ddelio â busnes hanfodol neu dorchi llewys i helpu i wneud peth o'r gwaith caib a rhaw. Mae rhai o'r Cyfeillion wedi rhoi'r ffidil yn y to oherwydd nad oes dim byd byth yn newid.

Roedd llawer o blaid peidio â dyblygu gwaith rhwng cyfarfodydd yng Nghymru (a'r Gororau). Soniwyd gam bwysigrwydd cyfathrebu. Sylfaen gadarn Crynwriaeth yw'r Cyfarfodydd Lleol; mae angen atebion lleol i anghenion lleol felly rhaid i ni gadw Cyfarfodydd Rhanbarth yn weddol leol, ond gallem gyfuno ymddiriedolwyr a rhai swyddogaethau eraill. Rhaid i glerigwyr wneud llawer o waith gweinyddol, nid dim ond dod o hyd i eiriau ysbrydoledig, rydym i gyd yn glerigwyr felly mae'r un peth yn wir i ni.

Lefelau egni sy'n lleihau gydag oedran, nid brwdfrydedd. Ymddengys ein bod yn dal ein gafael ar ddŵr y bath hyd yn oed pan fydd wedi oeri a'r babi'n marw o hypothermia. Ni fydd 'Dydyn ni erioed wedi ei wneud o fel yna' yn ddadl dderbyniol mwyach. Rhaid i ni feddwl mewn ffordd gwbl newydd.

Am fod y gwaith ymgynghori wedi digwydd yn ystod y Cloi Mawr oherwydd COVID 19, cafwyd llawer o sôn am y defnydd o Zoom. Yn wir, roedd gan un mynychwr newydd fwy o brofiad o gyfarfodydd ar-lein na chyfarfodydd wyneb yn wyneb i addoli. Lleisiwyd pryderon fod y defnydd o dechnoleg yn cau allan rai Cyfeillion oherwydd nad oeddent yn gallu ei ddefnyddio neu'n anghyfforddus wrth wneud hynny. Ar y llaw arall, fe'i gwnaeth yn bosib i nifer o Gyfeillion gymryd rhan mewn cyfarfodydd busnes na fyddent wedi gallu eu mynychu fel arall. Soniodd llawer o Gyfeillion am hwylustod gallu cynnal cyfarfodydd busnes heb yr amser a'r gost (o ran arian ac o ran effaith ar yr amgylchedd) o deithio pellteroedd mawr i gyfarfod wyneb yn wyneb. Mae'n ei gwneud yn bosib gweithio mewn grwpiau sydd mewn lleoliadau daearyddol gwahanol. Ond mae cyfarfod wyneb yn wyneb yn galluogi pobl i ddod i adnabod ei gilydd mewn ffordd nad yw'n bosib wrth gyfarfod ar-lein felly mae'n bwysig cael rhyw fath o economi gymysg.

Mae dau fater sy'n unigryw i Gymru. Nid yw'r ffin genedlaethol a ffiniau'r Crynwyr yn cyd-fynd am bob math o resymau sy'n cynnwys, cyfeillgarwch, hanes a daearyddiaeth. Roedd rhai Cyfeillion yn Lloegr nad oeddent yn gyfforddus wrth ddod yn rhan leiafrifol o fudiad Cymreig yn bennaf, ond nid oedd dymuniad i wneud i'r ffiniau gyd-fynd. Mae'n gymhleth, ond yn un y mae'r rhan fwyaf o Gyfeillion i weld yn fodlon byw gydag ef. Mae'r mater arall ynghlwm wrth natur Cymreictod. (Mae llawer o Gyfeillion o Loegr sy'n edrych yn eiddigeddus dros y ffin ar hyn o bryd o weld y dull mwy ystyriol o ymdrin â'r Coronafirws ar ochr Cymru.) Fyddai Cyfeillion sy'n byw ar ochr Lloegr i'r ffin yn cael croeso ymysg Cyfeillion yng Nghymru? Ydy iaith yn uno neu'n gwahanu? Allwn ni siarad yn agored am y materion hyn?

Nid oes raid i symleiddio fod yn gymhleth.

## Atodiad 5

### Pam mae'n rhaid i ni fod yn elusen gofrestredig?

ymateb gan Paul Parker, Clerc Cofnodi Cyfarfod Blynyddol Prydain

Yn gyntaf, rydym yn elusen am ein bod ni wedi bod yn elusen erioed. Yr unig newid a gafwyd ers 2006 yw ein bod ni wedi dod (ar lefel y cyfarfodydd rhanbarth a'r cyfarfod blynyddol) yn elusennau cofrestredig. Mae hynny oherwydd bod Deddf Elusennau'r flwyddyn honno wedi rhoi terfyn ar 'statws eithriedig' cyrff crefyddol - lle gallent fod yn elusennau heb gofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (neu Swyddfa'r Scottish Charity Regulator). Yn sgil y broses gofrestru bu'n ofynnol i ni benodi ymddiriedolwyr wedi eu henwi - cyn hynny, roedd holl aelodau'r cyfarfod misol (y pryd hynny) yn ymddiriedolwyr *de facto* (p'un oeddent yn gwybod hynny ai peidio!), ac yn rhannu atebolrwydd. Am bob math o resymau nid oedd hynny'n drefniant arbennig o foddhaol.

Yn ail, rydym yn elusen oherwydd ni allwn ni fod yn unrhyw beth arall. Os ydych chi eisiau agor cyfrif banc, bod yn berchen ar eiddo, cymryd yswiriant, cynnal gweithgareddau gyda phlant/pobl agored i niwed, yna rhaid i chi fod yn endid cyfreithiol – sy'n golygu naill ai fod yn rhaid i chi fod yn unigolyn, yn elusen neu'n gwmni. Does dim dewisiadau eraill a dweud y gwir. Mae manteision pendant ynghlwm wrth ddewis bod yn elusen rhagor na'r dewisiadau eraill – yn bennaf oherwydd faint o dreth yr ydych yn ei dalu. Ac mae'n anodd dychmygu cyfarfodydd Crynwyr yn dymuno i'w holl adnoddau fod yn eiddo i un unigolyn. Mae yna dri Chyfarfod Rhanbarth a ddewisodd gofrestru fel cwmni (sefydliad anghorfforedig), ac ni fyddwn yn argymhell y llwybr hwnnw.

Yn drydydd rydym yn elusen oherwydd unwaith y mae gan elusen asedau (arian, eiddo, etc.) gellir eu defnyddio wedyn dim ond at y pwrpas elusennol y rhoddwyd nhw i'r elusen er ei fwyn. Felly pe baech yn peidio â bod yn elusen, byddai'n rhaid i chi ddod o hyd i elusen arall a allai gymryd eich asedau a'u defnyddio at y pwrpas hwnnw. Felly byddai Cyfarfod Rhanbarth a fyddai'n rhoi'r gorau i'w statws elusennol hefyd yn gorfod rhoi ei holl arian a'i eiddo i gorff arall a allai eu defnyddio.

Yn bedwerydd, rydym yn elusen oherwydd bod Cyfarfod Blynyddol 2005 wedi penderfynu mai dyna oedd y llwybr cywir i'w ddilyn ac fe gofnodwyd hynny yn *Quaker faith & practice* (ym mhenodau 4, 14 ac 15). Sefydlwyd Pwyllgor Stiwardiaeth y Crynwyr gan y Cyfarfod Blynyddol i lywio'r broses hon ac i ddatblygu polisi o gwmpas cofrestriad elusennol. I newid yn y dull gweithredu mewn unrhyw ffordd byddai angen penderfyniad yn y Cyfarfod Blynyddol. Nid oes dim arwydd y byddai'r Cyfarfod Blynyddol yn fodlon cydsynio i unrhyw newid o'r fath, a byddwn yn cynghori Cyfeillion yn gryf i beidio ystyried y posibilrwydd hwnnw.

Yn bumed, rydym yn elusen oherwydd mae'n beth tryloyw i'w wneud. Mae Cyfeillion bob amser wedi rhoi pwys mawr ar wirionedd ac onestrwydd, felly dylai rhoi ein materion ariannol a'n hadroddiadau blynyddol yn y parth cyhoeddus fod yn rhywbeth rydym yn ei groesawu, ac mae'r atebolrwydd sydd ynghlwm â hynny yn rhywbeth y dymunwn ei annog, nid cilio rhagddo.

Yn olaf, rydym yn elusen am fod 'hyrwyddo crefydd' yn cael ei weld fel rhywbeth sydd o fudd cyhoeddus mewn deddfwriaeth elusennol. Nid yw bod yn elusen yn cyfyngu'n ormodol ar weithgarwch y Crynwyr. Er bod arweiniad y Comisiwn Elusennau (yn CC9 <<https://>

[assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/610137/CC9.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/610137/CC9.pdf)) yn atal elusennau rhag ymgymryd â gweithgarwch gwleidyddol pleidiol, nid oes dim cyfyngiad ar ymwneud gwleidyddol o natur ehangach, oni bai fod hynny'n dod yn brif bwrpas yr elusen. Gan mai ein prif bwrpas yw 'hyrwyddo crefydd', a fydd hynny byth yn newid - rydym ni o flaen pob dim arall yn eglwys - nid oes dim bygythiad i ni yn hynny. Yr unig agwedd sy'n peri pryder yw'r Transparency of Lobbying Act 2014, sy'n gosod rhai cyfyngiadau ar weithgarwch yn ystod y cyfnod rheoleiddiedig cyn etholiadau - ond byddai'n hynny'n berthnasol i ni p'un a fyddem yn elusen ai peidio, gan fod cwmpas y Ddeddf yn eang iawn. Felly yn ymarferol mae statws elusennol yn gwneud fawr ddim gwahaniaeth i'r hyn y caniateir i ni ei wneud yn y maes gwleidyddol.

## Atodiad 6

# Beth yw Cyfarfod Crynwyr Cymru?

Corff cenedlaethol Crynwyr yng Nghymru yw Cyfarfod Crynwyr Cymru (MFW) (gweler QFP. 5.04) ac mae'n elusen gyda'i chorff ymddiriedolwyr ei hun. Mae'n bodoli yng Nghrynwriaeth Prydain i gydnabod arwahanrwydd Cymru, ei threftadaeth a'i dwy iaith swyddogol. Mae corff tebyg gan Gyfeillion yn yr Alban. Mae'r rhan fwyaf o'r ychydig gannoedd o Gyfeillion yng Nghymru yn byw ein Crynwriaeth yn y wlad fach hon gyda'i hamrywiaeth, ei thlodi eang a'i chyfoeth diwylliannol, ei heriau economaidd, gwleidyddol a daearyddol a'i phrofiad o ddatganolli sy'n dal i fynd rhagddo.

Beth mae Cyfarfod Crynwyr Cymru yn ei wneud? Ar ran BYM caiff y dasg o siarad ar ran Cymru a Chrynwriaeth Cymru i BYM a hefyd o fod yn llais Crynwriaeth i Gymru a'i sefydliadau. Felly Cyfarfod Crynwyr Cymru yw'r llwyfan ar gyfer siarad â'r Senedd a Chytûn; ar gyfer sicrhau presenoldeb a gweithgareddau'r Crynwyr mewn digwyddiadau diwylliannol megis yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Frenhinol Cymru a Gŵyl y Gelli; ar gyfer cyhoeddi deunyddiau i ymestyn allan ac i mewn yn Gymraeg ac yn Saesneg; ar gyfer lledaenu gwybodaeth trwy ddulliau electronig a chynnal a chadw gwefan ac ar gyfer bod mewn cysylltiad â Chyfarfodydd yng Nghymru, yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae MFW yn cyhoeddi *Calon*, yn ymwneud ag ymgyrchoedd, yn cynnal digwyddiadau arbennig ac yn rhoi cefnogaeth ymarferol - a'r holl bethau hyn yn ogystal â'r tri chyfarfod y flwyddyn sydd ar gyfer busnes ac adnewyddu ysbrydol. Serch hynny, prif dasg MFW yw tynnu pobl at ei gilydd a bod yn gartref ysbrydol.

Trwy MFW, mae Crynwyr yng Nghymru wedi cael modd i feddwl a gweithredu'n genedlaethol ac i ymestyn allan yn rhyngwladol fel corff yng Nghymru. Yn anorfod, un o'u hamcanion yw siarad yn gydlynol ac yn effeithiol fel Crynwyr yng Nghymru. Un enghraifft fyddai siarad â'r Senedd mewn perthynas â pholisi Mae cryfhau'r agwedd hon ar ein tystiolaeth yn dibynnu ar gymryd rhan ac ymwneud â MFW a pharodrwydd i weld y tu hwnt i'r lleol mewn termau Crynwrol. Byddai symleiddio'r prosesau hynny sy'n llyncu unigolion ac amser (yn MFW ac mewn cyrff Crynwyr eraill) yn gymorth yn hynny o beth. Felly hefyd byddai defnyddio technoleg fodern i'w gwneud yn haws i ni gyfarfod heb orfod teithio. Yn y wlad fach hon a nifer y Gyfeillion yn lleihau ond 'pobl fawr i'w chasglu' gallem fod yn adeiladu pob math o gysylltiadau 'ar draws y ffin', gan rwydweithio a chydweithio ar draws ein rhanbarthau mewn materion yn ymwneud â meithrin yn ysbrydol, er enghraifft, mewn gwaith ymestyn allan, mewn hyfforddiant a gwybodaeth a rhannu sgiliau, mewn gweithredu a chymdeithasu a rhannu Pryderon y gellid gweithredu arnynt yn gyflymach ac yn fwy effeithiol. Oherwydd ni, pawb sy'n byw neu'n addoli yng Nghymru fel Crynwyr (gan groesawu Gyfeillion o gyfarfodydd lleol dros y ffin yn Lloegr hefyd) yw Cyfarfod Crynwyr Cymru. Nid yw Cyfarfod Crynwyr Cymru yn rhywbeth ychwanegol neu 'arall'.

## Quaker Faith and Practice 4.02


### Cyfansoddiad a Swyddogaeth y Cyfarfod Rhanbarth

- *Y cyfarfod rhanbarth yw'r prif gyfarfod ar gyfer materion eglwysig yng Nghyfarfod Blynyddol Prydain. Ei swyddogaeth yw datblygu a chynnal cymuned o Gyfeillion, teulu o gyfarfodydd lleol sy'n ymgynnull i addoli ac i ymgyfoethogi'n ysbrydol. Dylai ddarparu'r cydbwysedd hwnnw rhwng addoli, aelodau'n cefnogi ei gilydd, gweinyddu, dysgu, myfyrio a bywyd cymdeithasol sy'n gallu gwneud ei gyfarfodydd yn achlysuron plaserus ac adeiladu bywyd ysbrydol ei aelodau.*
- *Mae cyfarfodydd rhanbarth yn gweithredu fel hwyluswyr a chydlynwyr, er mwyn sicrhau bod eu cyfarfodydd lleol cyfansoddol yn cael cyfleoedd i gymdeithasu, datblygu'n ysbrydol a gofal ysbrydol a bugeiliol, gan gynnwys gofalu am blant a phobl ifanc. Maent hefyd yn sicrhau bod aelodau'n cefnogi ei gilydd trwy brofi materion ar y cyd.*

Mae cyfarfodydd rhanbarth hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am sicrhau bod adnoddau lleol a rhanbarthol yn cael eu stiwardio'n briodol. Mae pob cyfarfod rhanbarth yn endid elusennol ar wahân ac mae'n [gall fod yn] ofynnol iddo gael ei gofrestru fel y cyfryw gyda'r rheoleiddiwr elusennau perthnasol.

## Appendix 8

### The 2006 Report 'Quaker Structures in Wales and the Borders



Yearly Meeting  
of the Religious  
Society of  
Friends in  
Britain

### **Quaker Structures in Wales and the Borders PROPOSALS FOR CHANGE IN STRUCTURES**

***AIM: To release spiritual energy and reduce burden and duplication***

#### **BACKGROUND**

Local Meetings have had several opportunities in recent years to respond to consultations about Quaker Structures in Wales and the Borders. Meeting for Sufferings has approved further work to explore new structures. These may be different from the rest of Britain. The purpose is to support small, scattered meetings, to release spiritual energy and avoid duplication. Meetings now have an opportunity to get involved in developing proposals arising from suggestions included in the latest consultation by the assistant recording clerk.

#### **PROPOSAL**

Replace the current Monthly Meetings in Wales, and Meeting of Friends in Wales with a more integrated framework:

- **An All Wales Quaker Meeting (AWQM)**, with administrative support from Central Funds, to help the functioning of **ALL** meetings in Wales by linking them up directly, and continue the current work of Meeting of Friends in

Wales.

• **Clusters** of local meetings, to support one another, with pastoral matters, but also test and forward concerns from local meetings and seek to involve more Friends in the wider work of the Society, in Wales and beyond.

• **Other links.** Existing programmes and links both within Wales and across the border, which are working well, especially those for **children and young people**, should continue, and be strengthened. As far as possible, these opportunities should be opened out.

### **WHO DOES WHAT?**

A possible arrangement for primary responsibility - see overleaf.

<b>All Wales Quaker Meeting AWQM</b>	<b>Clusters</b>
Admin function (on behalf of clusters as well as its own work)	Eldership and oversight
Contact Lists of members and attenders	Membership
Relates to national bodies - CYTUN, Senedd, etc.	Right ordering of meetings
Coordination of CYP and other events	CYP child protection
National Outreach, publications	Local outreach
Spiritual nurture through national gatherings, retreats etc.	Local nurture and fellowship opportunities
Representing Wales to BYM committees and MfSufferings	Representatives, drawn from, and report to local cluster
Property and trusteeship ( opt in)	Property and trusteeship (opt out)
Creating a shared calendar of events	Offering opportunities to neighbouring clusters

### **HOW IT MIGHT WORK**

• It is the *relationship* between the AWQM and the clusters that is important.

• AWQM should strengthen the functioning of the clusters and the clusters feel enabled to engage with the issues considered by the AWQM.

### **Calendar of Meetings**

• Clusters might meet 4-6 times a year. Evening weekday meetings for business might be possible for some clusters, rather than all-day Saturdays (Wirral and Chester MM, which is geographically compact, do this).

• AWQM might meet 3- 4 times, with a small group (who would be the trustees) to make decisions between meetings and prepare business so that there would be time for Spiritual Nurture and proper consideration of Quaker Witness at all-day meetings.

### **Stewardship / trusteeship**



- A trustee body might work for all of Wales but members would be nominated and need to be in touch with detailed information from their Cluster.
- Property might be managed locally but the accounts held by AWQM.
- Clusters might administer a joint bank account for a number of small meetings.

### **Administration**

- The administrator could produce leaflets and flyers for Clusters, or other groupings of meetings and handle bookings for residential events.
- Electronic communication channels including email and the Website should be developed and used as much as possible, without jeopardising the involvement of those without IT connections.
- Outreach material - exhibitions, publications and leaflets can be developed for all of Wales but in response to local needs.

### **Representation and communication**

- Committees and groups of AWQM (e.g. Nominations, arrangements) would normally consist of people doing this work in the cluster to avoid duplication.
- Representation at Quaker conferences etc might be at an all-Wales level or might be disseminated to clusters for appointment.
- Representatives to Meeting for Sufferings might be appointed as far as possible one for each cluster, and they might report alternately to the cluster and to AWQM. NB The role and the pattern of meetings of Meeting for Sufferings is likely to change and evolve over the next few years with the introduction of the new small Trustee body for Britain Yearly Meeting.

### **Membership**

- Clusters might handle membership matters, to ensure the care, nurture, education and support required but the actual membership list might be held by the AWQM.
- Clusters might need to make arrangements to expedite membership matters between meetings, if they met less frequently.

Steering Group  
October 2006

**Our meetings for worship for business should be times to build community, so as to be responsive to God as a people.**

***Report from Assistant Recording Clerk to Meeting for Sufferings, September 2006***

## **Appendix 9**

### **Almeley Wootton LM minute**

#### **ALM 20.18 Preparation for Area Meeting via Zoom on June 13<sup>th</sup> 2020 at 11am**

We have given consideration to the agenda.

We have been asked to reflect on the main agenda item (5) – The Future of Area Meeting.

Friends have considered the challenge of appointing a sufficient number of Trustees, which has been raised in several of the accompanying papers for Area Meeting. In discernment it became clear that whilst Friends acknowledge the difficulties and believe this is the time to consider a different approach they would value a staged approach which would provide time for reflection and evaluation rather than create a situation which can never be reversed. We support the approach outlined by our Friend, Ian Sterry, and summarised below and ask our Clerk to forward this to the Area Meeting Clerk and to Peter Rivers for the Change/Transformation Group.

#### **Trustees**

“Trustees are key to a well-managed charity. We need to appoint persons with the right innate abilities, the right acquired skills/experience, and the right motivation to do the job.

In the context of the member AMs of Meeting of Friends in Wales, one proposed option to increase the pool of potential trustees would be to merge the four AMs, or merge all 5 charities, by laying down each one and forming one new one. However, as Stevie Kraye points out, this is a lengthy process, not possible in our time scale. I would add that it would be costly, we may not have the skills available to manage the process, and it would be irreversible.

#### **There is another option:-**

Clause 13(i) of our Governing Document says that Trustees must be appointed from members of our AM.

I propose that clause 13(i) be amended to say that Trustees can be appointed who are members of any AM within BYM.

It is within the power of AM in Session to make this change. (clause 7(i)) It could be done at the next meeting. If each AM of Friends in Wales made the same amendment, then the same group of say 12-15 people could be appointed to each of the AMs as trustees for the next triennium.

#### **Advantages**

1. Speed- can be done immediately.
2. Cost – No legal or professional costs
3. Achieves objective of increase in the pool of potential trustees. We would be looking at appointing 12-15 Trustees from 684 members. [SMAQM is currently looking for 12 trustees from 199 members). We would still have the option to appoint from other English AMs.

4. The Trustees would have the next triennium to learn how to work together, adopt and develop best practice without the pressure of immediate crisis.
5. The process is reversible. At the end of the triennium we would have the options of:
  - 5.1. Go back to where we are now
  - 5.2. Continue with the new system.
  - 5.3. Proceed to a full merger, in which case we would have a team of competent trustees to manage the process.”

Almeley Friends support the overall desire to reshape Area Meeting so that its focus is less on business and more on the spiritual life of Quakers and on outreach. We recognise that much of the business of the SMAQM has properly been passed to the Trustees, who are responsible for Finance, Property, Legal Compliance, and employment and in that sense AM in session is already almost free of ‘business’ matters. The only ‘business’ matters which have to be on the AM Agenda are half a dozen or so agenda items per annum:- to approve Trustee reports; approve the annual accounts; approve membership changes; and nominations matters, which have not been delegated. Any other ‘business’ item therefore is a matter of choice, not necessity. Friends however are aware of other agenda items loosely referred to as ‘business’ which can involve them sitting for long periods listening to ‘discussions’ and then picking over a Minute. Friends wonder if this is what leads some to avoid AM.

We have been reminded of the value of thinking creatively and living adventurously and of the opportunities which can be lost by the temptation to adhere to the past and to what we know.

## Atodiad 10

# Yr hyn y gallai pob Cyfarfod Rhanbarth ei gyfrannu at elusen ar y cyd

Mae pob Cyfarfod Rhanbarth yn cyfrannu mwy nag aelodau a mynychwyr; ond mae'n gymorth i deall y meintiau cymharol. Prif bwrpas tŷ cwrdd yw darparu lle i Gyfeillion gyfarfod, gall hefyd fod yn gyfrwng ymestyn allan ond yn y sefyllfa sydd ohoni mae'n werth deall y gost neu'r budd ariannol.

### 10 a) Pobl a chyfarfodydd

Cyfarfod Rhanbarth	Canolbarth Cymru	Gogledd Cymru	De Cymru	De'r Gororau
Aelodau	85	146	197	199
Mynychwyr	86	78	149	143
Cyfanswm Oedolion	171	224	346	342
Plant	23	11	31	18
Cyfarfodydd	6	10	12	9
Grwpiau addoli			3	

### 10b) Rhestr Eiddo ym Mherchnogaeth y Pedwar Cyfarfod Rhanbarth

<i>cyfarfod</i>	<i>dyddiad adeilad</i>	<i>rhestredig</i>	<i>arolwg pum mlynedd diweddaraf</i>	<i>sylwadau</i>	
<b>De Cymru</b>					
Caerdydd	1857	No	Amherthnasol	Yn cynllunio gwaith ailddatblygu sylweddol naill ai ar yr adeilad presennol neu ailadeiladu'n gyfan gwbl	
Pen-y-bont ar Ogwr	1920au? cynt?	Na	Ionawr 2019	Mewn cyflwr eithaf da ond bod angen ychydig o waith ar yr adeiledd.	
